


**Cafcass Cymru**

# Ein Dull o Ddysgu am Amrywiaeth Pobl

Yn Cafcass Cymru, mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn ystyried unigoliaeth pob unigolyn yr ydym yn gweithio gydag ef/hi a phob sefyllfa yr ydym yn ymwneud â hi.

**Pan fyddwn yn siarad â rhieni, byddwn yn gofyn am wybodaeth amrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys gofyn am y canlynol:**

- Iaith — dewis ieithoedd ysgrifenedig, llafar a darllen
- Ethnigrwydd
- P'un a oes unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â darllen neu ysgrifennu neu anabled
- Crefydd a'r diwrnodau sy'n bwysig i chi eu dathlu
- Rhywioldeb
- Hunaniaeth rhywedd a rhagenwau dewisol
- Unrhyw fregusrwydd arall yn y cartref — gall hyn fod yn anhawster iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, cyfrifoldebau gofalu, digartrefedd, neu unrhyw beth arall y gallai fod angen i ni ei ystyried mewn perthynas â rhywun wrth wneud cynlluniau ac argymhellion.



## Nid oes rhaid i chi rannu unrhyw wybodaeth gyda ni nad ydych yn gyfforddus yn ei rhannu.

- Nid oes rhaid i chi rannu unrhyw wybodaeth gyda ni nad ydych yn gyfforddus yn ei rhannu.
- Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhannu yn ein helpu i sicrhau ein bod yn gweithio gyda chi mewn ffordd sy'n barchus ac sy'n ystyried eich anghenion.
- Byddwn hefyd yn gofyn i rieni am wybodaeth amrywiaeth o ran eu plentyn / eu plant.
- Pan fyddwn yn cyfarfod â phlant a phobl ifanc sy'n ddigon hen i gymryd rhan mewn sgwrs â ni, byddwn yn gofyn iddynt am eu hunaniaeth, fel rhan o'n gwaith uniongyrchol. Bydd y cwestiynau yr ydym yn eu gofyn yn dibynnu ar oedran, lefel dealltwriaeth, ac unrhyw wybodaeth yr ydym eisoes yn ymwybodol ohoni.
- Os nad yw rhiant am inni ofyn rhai cwestiynau, byddwn yn parchu hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwystrau wedi'u gosod ar blant a phobl ifanc ynghylch yr hyn y gallant ac na allant siarad â'r Cynghorydd Llys Teulu amdano.
- Os rhennir gwybodaeth gyda ni am amrywiaeth, ond nad yw rhywun eisiau iddi gael ei rhannu ag unrhyw un arall, caiff hynny ei nodi. Ni fyddai'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu'n ehangach oni fyddai rheswm clir dros wneud hynny, megis diogelwch neu lesiant rhywun, a byddai'r rheswm dros hynny'n cael ei drafod.

